



Newidiadau i gynnwys y pecyn hyfforddi

Adnoddau'r pecyn hyfforddi

Wedi newid i gyfeirio at y deunydd diwygiedig a'r dogfennau newydd.

Cyflwyniad a chefnidir

Diweddarwyd i adlewyrchu'r newidiadau a wnaethpwyd:

- defnyddio'r termau "honiadau ac amheuron" yn hytrach na datgeliad i ddisgrifio'n fwy cywir y broses ac i gyd-fynd â'r derminoleg yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- dolen at Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Gofal Cymdeithasol Cymru.

Uned a llyfr gwaith SCIF

Heb newid, ond terminoleg y llyfr gwaith wedi'i newid i ddefnyddio "amheuron" a "honiadau".

Cynllun gwrs/ manylion y cyflwynydd

Mae cynllun y wers wedi ei newid i:

- gynnwys dolen at *Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* a Gofal Cymdeithasol Cymru
- rhoi mwy o wybodaeth am yr arweiniad statudol *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg*
- y derminoleg wedi'i newid i "honiadau ac amheuron" yn hytrach na "datgeliad"
- enghreifftiau o adolygu ymarfer wedi'u diweddarau i gynnwys enghreifftiau Cymreig diweddar.

PowerPoint

Mae PowerPoint hefyd wedi'i newid i adlewyrchu'r meysydd uchod.

Gweithgareddau

Mae teitl gweithgareddau 2, 3, 9 ac 11b wedi eu newid i ddefnyddio'r termau "honiadau ac amheuron".

Mae gweithgaredd 5 wedi ychwanegu cynnwys yn y daflen ar gam-drin ariannol i helpu meddwl o ran plant a phobl ifanc gan fod hwn yn gategori newydd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Gall cyflwynwyr ddefnyddio deunydd ategol, a ddylai fod yn gyfarwydd iddynt, ar Hyb Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru: gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan



Taflenni

Taflen 1 – oedolyn mewn perygl: wedi'i diweddarau ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru a dolen at yr Hyb Gwybodaeth a Dysgu.

Taflen 2 – plentyn mewn perygl: wedi'i diweddarau ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru a dolen at yr Hyb Gwybodaeth a Dysgu.

Taflen 3 – cam-fanteisio rhywiol: diweddarwyd ar gyfer yr arweiniad diweddaraf.

Teitl y daflen "gwneud a pheidio gwneud" wedi'i newid i ddefnyddio'r derminoleg "honiadau ac amheuan".

Arweiniad i'r ddeddfwriaeth – wedi'i ddiweddarau i:

- gynnwys mwy o wybodaeth am yr arweiniad statudol *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg*
- dileu arweiniad sydd wedi dyddio ac eglurder ar weithdrefnau
- egluro'r ddolen o DOLS at y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005
- ychwanegu Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015
- ychwanegu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- adrannau wedi'u had-drefnu.

Categoriâu camdriniaeth, SSIA a POVA, deddfwriaeth amddiffyn oedolion – gwybodaeth wedi'i thynnu am ei bod wedi dyddio.

Adnoddau estyniad wedi'u tynnu allan a'u cyfnewid â rhestr o gyfeiriadau cynhwysfawr gan Ofal Cymdeithasol Cymru.

Adolygiadau ymarfer

Rhoddir gwybodaeth ragarweiniol ar gyfer hyfforddwyr o'r enw *Adolygiadau ymarfer cryno ac estynedig (Cymru)*.

Mae templed cyffredin ar gyfer adolygiadau i sicrhau cysondeb, gyda chyflwyniad ar sut i'w defnyddio, a dolenni at wybodaeth lawn yr adolygiad, os yw ar gael o hyd.

Mae tri adolygiad newydd wedi cael eu hychwanegu fel enghreifftiau Cymreig diweddar sy'n cyd-fynd ag ystod o sefyllfaoedd ar gyfer hyfforddiant a thrafodaeth. Y rhain yw Operation Jasmine, Plentyn DS a Plentyn M.

Mae tri wedi cael ei dileu am nad oeddent yn cael eu hystyried yn ddefnyddiol ar gyfer trafodaethau a / neu nid oeddent yn cynnwys gwybodaeth eglur. Y rhain yw Jimmy Saville, adroddiad Francis a Harold Shipman.